**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 13-00(p3)**

Dyddiad: Dydd Mercher 11 Hydref 2000
Amser 9.00am tan 12.20pm
Lleoliad: Ystafell Bwyllgora, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Cyflwyno Adroddiad yr Ombwdsmon a'r Ymatebion Drafft**

**Rheol Sefydlog 21 - Y Drefn Gwyno**

1. Mae Rheol Sefydlog 21 yn ymdrin â'r drefn y dylid ei dilyn wrth ystyried adroddiadau Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru a Chomisiynydd y Gwasanaeth Iechyd ar gyfer Cymru. Os bydd yr adroddiad yn datgan bod y cwynwr wedi dioddef cam neu galedi o ganlyniad i gamweinyddu, bydd gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn cyn pen 20 niwrnod, ynghyd ag ymateb drafft i'r adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd neu'r camau y bwriedir eu cymryd.

2. Wedi i'r Pwyllgor ystyried yr ymateb, caiff ei gyflwyno i'r Prif Ysgrifennydd sy'n gyfrifol am hysbysu'r Ombwdsmon o'r camau a gymerwyd.

**Y Cwynion**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried adroddiad yr Ombwdsmon mewn perthynas ag Achos R9/99-00 (Mr A). Mae manylion y gyn hon wedi eu nodi yn atodiad 1. Mae copi o adroddiad yr Ombwdsmon yn atodiad 2, ac mae'r ymateb arfaethedig i'w anfon gan y Prif Ysgrifennydd at yr Ombwdsmon yn atodiad 3.

**Cynnig**

4. Gwahoddir y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i gytuno ar yr ymatebion drafft yn Atodiadau 3, 6 a 9 sydd i'w hanfon gan y Prif Ysgrifennydd at Ombwdsmon Cymru.

**Is-Adran Rheoli CAP** **Hydref 2000**

---

**Atodiad 1**

**CRYNODEB ACHOS - MR A (R42/99-00)**

**CEFNDIR**

**Cynllun Premiwm Blynyddol Defaid (SAPS)**

Mae'r Cynllun yn rhan o gyfundrefn cig defaid a chig geifr y Gymuned Ewropeaidd. Prif ddiben y gyfundrefn yw sicrhau un farchnad cig defaid a chig geifr ar draws y Gymuned a sicrhau cefnogaeth gyffredin i gynhyrchwyr. Mae'r premiwm mamogiaid blynyddol yn dâl diffyg i gynhyrchwyr a thrwy hyn y sicrheir cefnogaeth gyffredin.

**Lwfansau Iawndal Da Byw Tir Uchel**

Bwriedir i'r Cynllun hwn ategu cyflogau ffermwyr da byw yn yr Ardaloedd Llai Ffafriol (LFA) er mwyn rhoi ystyriaeth i'r anfanteision naturiol parhaol sy'n cyfyngu ar weithgareddau ffermio yn yr ardaloedd hynny. Diben y Cynllun yw sicrhau bod ffermio da byw helaeth yn parhau yn yr ardaloedd hynny, felly'n helpu i gadw poblogaeth hyfyw yn yr LFA a gwarchod cefn gwlad.

**Arolygiadau**

Gofynnir i Aelod Wladwriaethau gynnal gwiriadau gweinyddol a gwiriadau maes i sicrhau bod hawlwyr yn cydymffurfio â rheolau'r Cynlluniau uchod a meini prawf talu'r premiwm. Un o brif amcanion arolygu yw sefydlu faint o anifeiliaid cymwys a gedwir gan gynhyrchydd trwy gydol cyfnod cadw'r Cynlluniau (hy yn yr achos hwn o 4 Chwefror hyd at 15 Mai). Dan y ddau Gynllun mae'n ofynnol cadw nifer o anifeiliaid cymwys trwy gydol y cyfnod cadw ac i ddilysu hyn rhaid i gynhyrchwyr hefyd gadw'r cofnodion fel a nodir yng Nghyfarwyddeb 92/102 y CE.

**Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1996 (SAGRIMO)**

Yr oedd SAGRIMO, ymysg darpariaethau eraill, yn rhoi ar waith ofynion Cyfarwyddeb 92/102 a oedd yn ymwneud â defaid a geifr. Cyhoeddwyd arweiniad i'r gofyniad cyfreithiol ym mis Ionawr 1996 ac fe'i hanfonwyd at bob hawlydd.

Mae'r prif ofynion fel a ganlyn:

i. cofnod o symudiadau defaid a geifr i'r fferm ac oddi yno. Rhaid i'r cofnod gynnwys:

- dyddiad y symud;
- nod adnabod yr anifeiliaid a symudir;
- cyfanswm y defaid a geifr a symudir;
- y daliad y symudir anifeiliaid ohono;
- y daliad, gan gynnwys marchnad neu ladd-dy, y symudir yr anifail iddo;
- cyfanswm y defaid a'r geifr ar eich eiddo ar 1 Ionawr bob blwyddyn;

Rhaid i'r sawl sy'n cofnodi gadw'r cofnodion am gyfnod o dair blynedd o ddiwedd y flwyddyn y cofnodwyd yr eitem olaf.

ii. Cofnod parhaus wedi'i ddiweddaru o nifer y defaid benywaidd ar y daliad sy'n 12 mis oed neu'n hn, neu sydd wedi geni oen. Rhaid i'r cofnod ddangos cyfanswm y defaid o'r fath ar 1 Ionawr bob blwyddyn ac wedi hynny rhaid cofnodi newidiadau o fewn 14 diwrnod yn yr achosion canlynol:

- symud defaid i'r daliad neu oddi yno;
- defaid nad ydynt wedi geni oen yn dod yn 12 mis oed;
- defaid sy'n iau na 12 mis oed yn geni oen;
- darganfod y collwyd dafad neu ei bod wedi marw;
- a rhaid iddo gynnwys:
- y rhesymau dros y newidiadau i'r cyfanswm;
- achos y colledion, os yw'n hysbys;
- dyddiad pob eitem.

Rhaid cadw'r cofnod am gyfnod o bedair blynedd o ddiwedd y flwyddyn y cofnodwyd yr eitem olaf.

**CEFNDIR ACHOS**

Derbyniwyd hawliad cyfun SAP/HLCA 1998 gan Mr A ar 22 Ionawr 1998. Roedd hyn mewn perthynas â 1,000 o ddefaid dan SAPS ac 887 o Famogiaid Cymwys Arbennig dan HLCA.

Cafodd Mr A ei ddethol o dan ein system Dadansoddi Risg i gael arolygiad maes SAPS a drefnwyd ar gyfer 13 Mai 1998. Wrth archwilio'r cofnodion, datgelwyd nifer o wendidau. Dangosodd adroddiad y swyddog arolygu'r anghysonderau canlynol:

- Roedd y cofnodion mewn pensel;
- Ni chofnodwyd colledion ym 1997;
- Ni chofnodwyd dyddiad unrhyw golledion na dyddiad eu darganfod ym 1998, ac ni roddwyd y cyfanswm cyfredol; a
- Ni roddwyd y cyfanswm cyfredol ar gyfer y blynyddoedd blaenorol (h.y. 1994 hyd at 1996).

Hysbyswyd y swyddog arolygu fod 100 o famogiaid wedi eu dwyn rhwng mis Gorffennaf 1997 a mis Medi 1997 ond er i'r heddlu gael gwybod am y digwyddiad, ni roddwyd y golled hon ar y cofnod.

Yn dilyn galwad ffôn gan Mrs A ar 7 Medi 1998 ffoniwyd hi yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw i'w hysbysu y byddai hawliadau SAPS/HLC 1998 ei gwr yn cael eu gwrthod oherwydd y methiant i gadw cofnodion yn unol â gofynion y Cynllun. Cadarnhaodd yr Adran hyn hefyd mewn llythyr at Mr A ar 7 Medi 1998.

Derbyniwyd apeliadau oddi wrth Mr a Mrs A, Cymdeithas y Tirfeddianwyr, Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr ac Elfyn Llwyd AS, a gwrthodwyd pob un ohonynt.

**CASGLIAD**

Llofnododd Mr A ymrwymiad i gadw cofnodion o dan Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) 1996 (SAGRIMO) ynghyd ag unrhyw dalebau, derbyniadau neu ddogfennau eraill sy’n angenrheidiol i ddilysu cywirdeb y cofnodion hyn.

Methodd Mr A â chydymffurfio â’r rheoliadau ar sawl cyfrif, ond yn benodol, ni chofnododd unrhyw golledion ym 1997 (gan gynnwys 100 o ddefaid y mae’n mynnu iddynt gael eu dwyn o’i fferm); nid yw wedi cofnodi cyfanswm cyfredol nifer y defaid ar ei ddaliad; ac mae’r dyddiadau a gofnodwyd ym 1998 yn amhenodol. Ysgrifennwyd y cofnodion gan Mrs A ac fe’i hysbyswyd ar lafar o’r anghysonderau hyn gan y swyddog arolygu ar ddiwrnod yr arolygiad. Yn ychwanegol, nododd y swyddog arolygu y cedwid cofnod o’r eitemau mewn pensel, ac na ellid ystyried hynny, ynddo’i hun, fel arfer cyfrifo dibynadwy.

Dywedodd Mr A wrth y swyddog arolygu ei fod wedi rhoi gwybod i’r heddlu am y lladrad ac na ddylai fod unrhyw drafferth rhoi’r eitem yn y cofnodion.

Nid oes anghydfod yngln â’r ffaith bod nifer y defaid a gyfrifwyd gan y swyddog arolygu’n cydfynd â’r hawliad. Gwrthodwyd hawliad Mr A ar sail cofnodion gwael, nid diffyg yn nifer y defaid, ac rydym yn derbyn nad oedd unrhyw fwriad i dwyllo’r Adran.

Roedd yn anffodus na roddwyd gwybod i Mr A na fyddem yn talu premiwm/lwfans iddo oherwydd ei gofnodion annigonol tan fis Medi 1998 (pedwar mis ar ôl yr arolygiad), ond roedd hyn ar adeg pan oedd y Swyddfa Adrannol dan bwysau enfawr i brosesu hawliadau.

Mae cofnodion Mr A mor annigonol pe na byddai’n wynebu cosb sylweddol byddai’n esiampl ddrwg i ffermwyr eraill, ac yn rhoi’r Cynulliad mewn sefyllfa i gael ei feirniadu o safbwynt archwiliadau ariannol. Fodd bynnag, penderfynwyd y dylid gwneud taliad eithriadol i Mr A mewn perthynas â gwerth llawn ei hawliad HLCA (£5,100.25) yn amodol ar archwiliad terfynol. Bydd Mr A yn dal i gael ei gosbi am fethu â chadw cofnodion digonol trwy i’r Cynulliad barhau i wrthod talu ei hawliad SAP.

Mae trafodaethau yn cael eu cynnal ar hyn o bryd gyda’r Adrannau Amaethyddiaeth eraill yn y DU yngln ag ai gwrthod talu’r taliad SAP yn llawn yw’r gosb briodol mewn achosion o’r fath ynteu a fyddai’n fwy priodol gwrthod talu rhan o’r taliad.

**CANFYDDIADAU’R OMBWDSMON**

Ni chanfu’r Ombwdsmon unrhyw gamweinyddu ac y mae’n ystyried bod canlyniad rhesymol a boddhaol o’r dull hwn o weithredu. Mae hefyd yn falch ein bod yn defnyddio system o gosbau graddedig ar gyfer cofnodion praidd annigonol gydag Adrannau Amaethyddiaeth eraill y DU.

**Atodiad 2**

Cyhoeddir yr atodiad hwn yn yr iaith y’i derbyniwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Image43.gif (45084 bytes)

Image44.gif (48981 bytes)

Image45.gif (48272 bytes)

Image46.gif (56238 bytes)

Image47.gif (60328 bytes)

Image48.gif (43971 bytes)

Image49.gif (55623 bytes)

Image50.gif (52936 bytes)

Image51.gif (64846 bytes)

Image52.gif (13239 bytes)

Image53.gif (30489 bytes)

Image54.gif (22479 bytes)

---

**Atodiad 3**

**Y Gwir Anrh. Rhodri Morgan AC AS**

Eich cyf: R.42/99-00

Mr Michael Buckley
Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru
Llawr 5
Capital Tower
Heol y Brodyr Llwydion
Caerdydd

Diolch ichi am lythyr eich Rheolwr Ymchwiliadau dyddiedig 5 Medi oedd yn amgáu’r adroddiad terfynol

ar gyn Mr A o dan eich cyfeiriad uchod fod Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa Gymreig wedi gwrthod talu’r Premiwm Arbennig Defaid a’r Lwfans Iawndal Da Byw Tir Uchel iddo am 1998, a hynny heb reswm digonol.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiolchgar am y gwaith a wnaed gennych ac mae bellach wedi ystyried ac asesu canfyddiadau eich Swyddog Ymchwiliadau. Rwyf yn sylwi fod yr adroddiad wedi dod i’r casgliad fod Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi adolygu achos Mr A o ganlyniad i ymyrraeth yr Ombwdsmon a’u bod bellach wedi datrys y mater mewn modd teg.

Mae’n ddrwg gennyf nad ydym yn gallu talu’r Premiwm Blynyddol Defaid i

Mr A ond, fel yr ydych yn nodi yn eich adroddiad, nid oedd Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa Gymreig yn euog o gamweinyddu wrth ymdrin â’r achos hwn. Penderfynodd y Cynulliad wneud taliad arbennig i Mr A am werth llawn y Lwfans Iawndal Da Byw Tir Uchel am 1998. Rwy’n falch eich bod yn cydnabod fod y camau a gymerwyd yn ateb y gyn mewn modd derbyniol.

Diolch ichi am dynnu ein sylw at gyn Mr A.